

Llyfrgell yr Wyddgrug a chanolfan @tebion



Llyfrgell yr Wyddgrug a chanolfan @tebion
Ffordd yr Iarll
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1AP

Ffôn: 01352 754791
Ffacs: 01352 707207

E-bost: llyfrgell.yr.wyddgrug@sirfflint.gov.uk

Oriau Agor:

Llun 9.30 - 7.00; Mawrth 9.30 - 5.00; Mercher 9.30 - 5.00; Iau 9.30 - 7.00;
Gwener 9.30 – 5.00; Sadwrn 9.30 – 1.30

Mae Llyfrgell yr Wyddgrug a [Sir y Fflint yn Cysylltu](#) yn cynnig gwasanaethau gwahanol i gwsmeriaid.

Mae gan Lyfrgell yr Wyddgrug adran fenthyg brysur ar y llawr isaf sy'n darparu ystod eang o ddeunyddiau ar gyfer oedolion, oedolion ifanc a phlant gan gynnwys, llyfrau, llyfrau llafar ar CD, a ffilmiau ar DVD.

Yn ychwanegol at y gwasanaeth gan staff mae Ciosg Hunanwasanaeth yn galluogi cwsmeriaid i fenthyg eitemau trwy eu hallgofnodi a dychwelyd eitemau trwy eu mewngofnodi. Mae'r ciosg yn gallu darparu derbynneb os dymunir. Mae cyfrifiaduron ar gael i'w defnyddio am ddim, lleolir un ohonynt o fewn llyfrgell y plant. Ceir cyfleusterau eraill yn cynnwys sganiwr a ffotocopiwr lliw.

Mae'r Llyfrgell yn cynnal digwyddiadau a gweithgareddau yn rheolaidd i blant ac oedolion, gan gynnwys sesiynau Amser Rhigwm i blant cyn oed ysgol. Am wybodaeth am ein gweithgareddau edrychwch ar ein cyfrifon Facebook a Twitter, [create links to Fb and Twitter?](#) Gallech hefyd e-bostio neu ffonio'r llyfrgell.

Mae Ciosg Taliadau sy'n galluogi cwsmeriaid i dalu rhent, trethi a biliau dyledus i Gyngor Sir y Fflint wedi ei leoli ar y llawr isaf a Phwynt Gwybodaeth i Ymwelwyr sy'n arddangos taflenni ar gyfer atyniadau lleol.

Mae casgliad cyfeiriol o adnoddau hanes lleol a hanes teuluol yn canolbwyntio ar Sir y Fflint a Gogledd Cymru yng nghanolfan @tebion ar y llawr cyntaf ynghyd ac adran gyfeiriol fechan. Nid yw'r casgliadau yma ar gael i'r cyhoedd trwy'r amser gan fod canolfan @tebion yn cael ei defnyddio'n rheolaidd ar gyfer dibenion addysg a hyfforddiant.

Cynghorir cwsmeriaid sydd am ddefnyddio'r cyfarpar neu i astudio yn @tebion i wneud yn siŵr ymlaen llaw fod y ganolfan ar agor. Gellir defnyddio rhai cyfrolau ar y llawr isaf o wneud cais ymlaen llaw.

Mae Amgueddfa'r Wyddgrug [Create a link to Welsh Museum webpage](#) hefyd ar y llawr cyntaf gydag arddangosfeydd yn dangos datblygiad yr Wyddgrug fel tref farchnad a dwy ystafell yn ail-greu gweithdy'r teiliwr a pharlwr y nofelydd Daniel Owen.

Mae Llyfrgell ac Amgueddfa'r Wyddgrug yng nghanol y dref ar draws y ffordd i'r Swyddfa Bost ar Ffordd yr Iarll. Y maes parcio agosaf yw'r un ym Maes y Ddol. Mae meysydd parcio ehangach lle gellir parcio trwy'r dydd yn Stryd Newydd a Love Lane.

Mae drysau awtomatig i'r llyfrgell ac mae lifft i fynd i'r llawr cyntaf lle mae'r toiledau.

Dewch i weld beth sydd ar gael - estynnir croeso cynnes i bawb

